

Datganiad Llesiant CCAUC

Adolygwyd Mawrth 2018



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Cyflwyniad

Mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru a sefydlwyd yn bennaf i gyllido, cynghori a rheoleiddio'r sector addysg uwch (AU) yng Nghymru. Mae Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 wedi rhoi ffocws newydd i rôl y sefydliad er mwyn adlewyrchu'r newidiadau mewn cyllid ac i gryfhau rôl AU mewn cefnogi cynnwys yn gymdeithasol.

Rydym yn rheoleiddio lefelau ffioedd mewn prifysgolion, yn sicrhau bod fframwaith yn ei le ar gyfer asesu ansawdd addysg uwch (AU), ac yn craffu ar berfformiad prifysgolion. Rydym yn defnyddio adnoddau Llywodraeth Cymru ac eraill i ddiogelu dysgu ac ymchwil o'r ansawdd uchaf mewn AU, gan fanteisio i'r eithaf ar gyfraniad AU at ddiwylliant, cymdeithas ac economi Cymru a sicrhau hyfforddiant athrawon achrededig o ansawdd uchel.


Cyhoeddwyd ein datganiad llesiant cyntaf yn 2017. Yn 2018, adolygwyd y datganiad a'r amcanion gan ein Fforwm Polisi (Chwefror 2018) a daeth i'r casgliad bod yr amcanion llesiant yn parhau'n berthnasol heb fod angen eu diweddarau gan eu bod yn cyd-fynd â'n Strategaeth Gorfforaethol newydd 2017-20.

Gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae gofyn i bob corff cyhoeddus sydd wedi'i ddatgan yn y Ddeddf ddatblygu amcanion llesiant, a datganiad ategol o lesiant, erbyn 31 Mawrth 2017 fan bellaf. Rhaid i'r amcanion llesiant geisio sicrhau cyfraniad gorau posib y sefydliad at gyflawni'r saith nod llesiant (Ffigur1) a chael eu datblygu mewn ffordd sy'n gyson â'r egwyddor o ddatblygu cynaliadwy¹. Rhaid i'r datganiad llesiant ddangos y canlynol:

- Pam mae'r corff cyhoeddus yn ystyried y bydd ei amcanion llesiant yn cyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant.
- Pam mae'r corff cyhoeddus yn ystyried bod ei amcanion llesiant wedi cael eu pennu yn unol â'r egwyddor o ddatblygu cynaliadwy, gan gynnwys esboniad o ran ymwneud y bobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant.
- Y camau i'w cymryd i gyflawni'r amcanion llesiant yn unol â'r egwyddor o ddatblygu cynaliadwy.
- Sut bydd pob corff cyhoeddus yn ei lywodraethu ei hun i gyflawni ei amcanion llesiant.
- Sut bydd pob corff yn parhau i adolygu'r camau mae'n eu cymryd i gyflawni'r amcanion llesiant.
- Pryd mae'r corff yn disgwyl cyflawni ei amcanion llesiant.
- Unrhyw wybodaeth berthnasol arall am yr amcanion llesiant.

¹ www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2015/2/section/5/enacted



Ffigur 1

Datblygu ein hamcanion llesiant i gefnogi'r nodau llesiant

Yn 2016, gofynnwyd i ni ddatblygu Strategaeth Addysg Uwch (Strategaeth AU) newydd ar gyfer Cymru ar ran Llywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod pwysigrwydd addysg uwch a'i gyfraniad at ddau faes, cyfiawnder cymdeithasol a llwyddiant economaidd, ers amser maith, ac yn sicr fel rhan o'r Datganiad Polisi ar Addysg Uwch². Wrth ddatblygu strategaeth AU ddrafft newydd, rydym wedi ceisio sicrhau ei bod yn cael ei datblygu mewn ffordd sy'n gyson â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac, yn benodol, gofynion yr egwyddor o ddatblygu cynaliadwy. Roedd hyn yn cynnwys datgan 24 o ofynion a fynegwyd yn glir fel sail i ddatblygu ein hamcanion llesiant.

Paratowyd adroddiad manwl ar ddatblygu'r strategaeth AU gyda gorwel o ddeng mlynedd, sy'n rhestru'r broses ymgynghori helaeth a'r amrywiaeth eang o randdeiliaid sydd wedi ymwneud â chreu'r strategaeth. Roedd yr ymatebion a grëwyd yn amrywiol ac yn cynnwys nid yn unig prifysgolion a sefydliadau cysylltiedig, ond amrywiaeth eang o gyrff, gan gynnwys grwpiau ffydd, sefydliadau i fyfyrwyr, cyrff cydraddoldeb a'r iaith Gymraeg. Penllanw datblygu'r strategaeth oedd digwyddiad ymgynghori gyda mwy na 100 yn bresennol.

Ategwyd y dull hwn o weithredu gan ddadansoddiad o'r ddarpariaeth AU bresennol a rhanddeiliaid yn datgan y newidiadau sy'n ofynnol er mwyn diwallu anghenion Cymru yn y dyfodol a hefyd cyfrannu'n llawn at gyflawni'r nodau llesiant. Roedd y gwaith hwn hefyd yn sail i ddatblygu ein Strategaeth Gorfforaethol 2017-20, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2017.

²www.hefcw.ac.uk/documents/publications/corporate_documents/Policy%20statement%20on%20higher%20education%20Cymraeg.pdf

Hefyd mae ein hamcanion llesiant yn gyson â'r weledigaeth sy'n sail i Strategaeth Gorfforaethol 2017-20, "*Addysg uwch gynaliadwy, hygyrch a rhagorol yn rhyngwladol yng Nghymru*". Rydym wedi mapio ein hamcanion llesiant yn erbyn y saith nod llesiant yn y tabl isod:

Sicrhau bod addysg uwch yng Nghymru'n berthnasol ac yn hygyrch i bawb a allai elwa ohoni, neu gyfrannu ati.	Cymru lewyrchus, Cymru iachach, Cymru sy'n fwy cyfartal, Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.
Hyrwyddo addysg uwch ragorol yn rhyngwladol sydd hefyd yn gweithio i gefnogi llesiant yn fyd-eang, a datblygu cynaliadwy.	Cymru lewyrchus, Cymru gydnerth, Cymru iachach, Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang,
Hybu system o AU sy'n gynaliadwy yn ariannol, yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol.	Cymru gydnerth, Cymru o gymunedau cydlynus.
Sicrhau bod CCAUC yn batrwm o sefydliad lle mae cydraddoldeb, partneriaeth a chynaliadwyedd yn rhan sylfaenol o gyflawni ein cenhadaeth.	Cymru sy'n fwy cyfartal, Cymru lewyrchus, Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang, Cymru o gymunedau cydlynus.

Sut byddwn yn cyflawni'r amcanion llesiant

Byddwn yn cyflawni ein hamcanion llesiant drwy ymgorffori'r amcanion hyn yn ein pedwar maes gwaith ac yn niwylliant a llywodraethu'r sefydliad:

- Cyllido addysg uwch yng Nghymru
- Rheoleiddio darparwyr addysg uwch yng Nghymru
- Dylanwadu gyda chynghor seiliedig ar dystiolaeth a gwaith partneriaeth cadarn
- Gweithredu'n effeithiol fel sefydliad

Mae gennym rôl barhaus gyda'r sector AU, y cyrff partner a rhanddeiliaid mewn cyllido, rheoleiddio a dylanwadu ar ddarparu addysg uwch ragorol yn rhyngwladol yng Nghymru, er gwaetha'r heriau a'r cyfleoedd arwyddocaol mae'r sector yn eu hwynebu. Mae cyflwyno Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 wedi arwain yn gynyddol atom yn symud oddi wrth ei rôl fel corff cyllido yn bennaf i ymwneud mwy â mynediad at AU yng Nghymru, ei reoleiddio a'i ansawdd. Nid yw'r pontio hwn yn gyflawn ac mae disgwyl newid sylweddol pellach wrth i Lywodraeth Cymru weithredu ei hymateb i Adolygiad Diamond o Gyllido Addysg Uwch a Threfniadau Cyllid Myfyrwyr³ ac ystyried y cynigion manwl ar gyfer diwygio'r System Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol yng Nghymru, trefniadau cyllido ymchwil ac arloesi a sefydlu comisiwn newydd.

Y camau nesaf

Un elfen sylfaenol er mwyn cyflawni ein hamcanion llesiant yn effeithiol yw ein Strategaeth Gorfforaethol. Mae wedi cael ei datblygu yn unol â'r egwyddor o ddatblygu cynaliadwy a bydd yn mynegi'n fanylach y ffordd orau y gallwn gyfrannu at gyflawni ein pedwar amcan llesiant. Mae'r Strategaeth Gorfforaethol hon yn wahanol i'r dogfennau tebyg blaenorol. O ystyried yr ansicrwydd cyd-destunol amrywiol sydd wedi'i amlinellu uchod, mae wedi'i phennu, o angenrheidrwydd, ar lefel uchel. Hefyd mae'n canolbwyntio ar beth fyddwn ni'n ei wneud fel sefydliad, yn hytrach na chanolbwyntio'n benodol ar beth rydym yn disgwyl i ddarparwyr ei gyflawni.

Mae hyn yn fwriadol: dylai ein Strategaeth Gorfforaethol bennu'r disgwyliadau ar gyfer ein perfformiad ein hunain. Nid yw'n arwydd o unrhyw leihad yn ein huchelgais ar gyfer sefydlu'r system addysg uwch orau posib yng Nghymru, o ystyried y cyd-destun rydym yn gweithio ynddo i gyd. Drwy gyllid, rheoleiddio a dylanwadu, ein nod ni fydd creu amgylchedd i ddarparwyr addysg uwch gyflwyno addysg uwch gynaliadwy, hygyrch a rhagorol yn rhyngwladol ynddo. Bydd y gwaith o roi'r Strategaeth Gorfforaethol a'r cynllun gweithredol ar waith yn cael ei fonitro gan ein Cyngor yn chwarterol a'i ategu gan adroddiad blynyddol a gyhoeddir.

³ <https://gov.wales/topics/educationandskills/highereducation/reviews/review-of-he-funding-and-student-finance-arrangements/?skip=1&lang=cy>

Bydd cyflawni'r amcanion llesiant yn parhau drwy gydol oes ein Strategaeth Gorfforaethol ar gyfer 2017-20. Gan adlewyrchu ar hyn ac ar lefel ddisgwyliedig y newid yn ystod oes y strategaeth, ein bwriad yw adolygu ein hamcanion llesiant yn flynyddol i ddechrau. Efallai y byddwn yn gwneud hyn yn amlach wrth i'r sefydliad gael ei effeithio gan y newidiadau polisi a deddfwriaethol arwyddocaol sy'n cael eu rhagweld yn ystod y blynyddoedd nesaf.